

Sychder 1887–88: cipolwg ar yr effaith ar amgylchedd Cymru

Cerys A. Jones

Myfyriwr Doethuriaeth, Sefydliad Daeryddiaeth a Gwyddorau Daear, Prifysgol Aberystwyth

Clywn yn aml am sychder mewn ardaloedd cras a lletgras y byd. Yn ddiweddar, gwelwyd adroddiadau ar sut y mae haf 2011 wedi bod yn eithriadol o sych yn nwyrain Affrica gan gael effaith syfrdanol ar y bobl, eu hanifeiliaid a byd natur. Gall sychder daro'r Deyrnas Gyfunol hefyd, i raddau llai, fel y gwelwyd yn 2011. Er gwaetha'r tywydd gwlyb yn yr Alban, bu gwanwyn (Mawrth i Mai) 2011 yn anarferol o sych mewn rhannau helaeth o Gymru a Lloegr o ganlyniad i ddiffyg glawiad. Hwn oedd y gwanwyn sychaf ers 101 o flynyddoedd yn Nwyrain Anglai, De Ddwyrain a chanolbarth de Lloegr, a chafodd Cymru ond 51% o'i glawiad cyfartalog (1971–2000).

Ond beth os bydd y sychder yn parhau? Er mwyn cael amcan o sut y gall sychder parhaus effeithio ar amgylchedd Cymru, edrychwn yn ôl i'r flwyddyn 1887.

Y Sychder

Dechreuodd sychder syddogol cyntaf y flwyddyn yng Nghymru ar y pedwerydd o Chwefror, 1887, yn ôl prif feteorolegwr y cyfnod (Symons 1887). Dilynodd cyfres o gyfnodau sych iawn, wedi'u britho â chawodydd, ar draws y mwyafrif helaeth o Gymru. Er enghraifft, ni lawiodd am fis gyfan yn ardal Abertawe, o'r wythfed o Fehefin i'r wythfed o Orffennaf, 1887. Y mae'n anodd dynodi dechrau a diwedd pendant at gyfnod o sychder ond daethpwyd o hyd i gofnodion am y sychder a'i effeithiau, o fewn papurau newydd a dyddiaduron, o ddechrau 1887 hyd at haf 1888.

Yr Effaith ...

Cafodd y diffyg glawiad hwn nifer fawr o effeithiau amrywiol. Yn Llanelli, doedd gan y dref ond trideg diwrnod o gyflenwad dŵr ar ddechrau mis Medi 1887. Gostyngodd lefel y dŵr yng nghronfeydd tref Hwlfordd, sef y Portfield a'r Fountain, i ond 4 troedfedd 2 modfedd a

2 troedfedd 9 modfedd ar ddiwedd Mehefin 1887, o'i gymharu ag 8 a 9 troedfedd ym Mehefin 1886.

Cafwyd adroddiadau go rhyfedd yn y papurau newydd o ganlyniad. Cafwyd newydd am waddod a phenbyliaid yn y dŵr yfed. Yn ogystal, dinistriwyd seston toiled tŷ ym Mrynsifi, Abertawe, yng ngwres yr haul am ei bod yn wag. Yn anffodus i'r perchennog, yr oedd y seston hefyd yn ffurfio rhan o nenfwd ei ystafell ymolchi.

... ar yr Amgylchedd

Arweiniodd y sychder hwn at newidiadau anuniongyrchol ar yr amgylchedd. Cyhoeddwyd llythyr â'r teitl "*THE STINKS OF THE TOWN*" yn y *Swansea and Glamorgan Herald and Neath Gazette* ar ddechrau Gorffennaf, 1887. Yr oedd yr awdur yn galw am fwy o ddefnydd o *chloride of lime* a diheintyddion eraill yn y draeniau, ac am ailgyflenwad y basgedi golosg ger y tyllau archwilio (*manholes*). Heb ddŵr i olchi'r draeniau yr oedd rhaid bod gan strydoedd Abertawe arogl annymunol, neu fel fe'i disgrifiwyd gan yr awdur, "*abominable [...] unsophisticated exhalations*" (*Swansea and Glamorgan Herald and Neath Gazette*, Gorffennaf 6, 1887: tt. 6).

Cafwyd adroddiadau o ardal Tregaron fod fferm Trecefel ond wedi llwyddo i gynaeafu llai na hanner y cnwd yd oedd ei angen er mwyn bwydo'u hanifeiliaid dros aeaf 1887–88. Nid oedd porthiant ar gyfer anifeiliaid amaethwyr Sir Fôn a Sir Gaernarfon ychwaith, ac yr oedd rhaid iddynt eu gwerthu am brisiau isel. Yr oedd yr anifeiliaid yn dioddef yn y marchnadoedd yn ogystal. Yn Abertawe, nid oedd dŵr ar gael i'r gwartheg dros benwythnos cyfan (o ddydd Sadwrn tan ddydd Llun).


Effeithiwyd ar fywyd gwyllt hefyd; bu farw nifer o frithylliaid o ganlyniad i ddiffyg llif yn yr afonydd, fel yr adroddwyd gan uwch-arolygydd beiliaid dŵr Glanyfferi. Ar yr ail o Fehefin 1887, yr oedd dail y coed derw o amgylch Llysdinam ond yn flagur, ac yr oedd rhai coed derw yno braidd yn dangos unrhyw wyrddni. Yng Nghastell Malgwyn, Llechryd, cofnodwyd bod y llystyfiant yno hefyd yn dioddef gan nad oedd y ffrwythau'n chwyddo nac yn aeddfedu. Cafwyd tanau eang ar fynyddoedd y Berwyn a Rhiwabon. Fe gostiodd hi £3,000 i Syr Watkin Williams Wynn wrth i 400 o weithwyr amaethyddol dreulio tair wythnos yn diffodd y tanau. Dinistriwyd rhwng deuddeg a phymtheg milltir o rostir a phorfelaeth, miloedd o rugieir a nifer o ddefaid.

Ymdopi â'r Argyfwng

Datblygwyd cynlluniau swyddogol ac answyddogol er mwyn delio â'r sychder. Cwtogodd trefi Caerdydd ac Abertawe y nifer o oriau yr oedd dŵr ar gael i'r trigolion. Er mwyn ceisio lleddfu effaith y sychder, defnyddiodd Abertawe ddŵr o hen byllau glo, er i rai leisio'u pryderon ynghylch purdeb y dŵr hwnnw. Yn ogystal, defnyddiodd nifer o gymunedau, busnesau ac unigolion eu gwybodaeth am yr ardal i leoli ac agor hen ffynhonnau ac i dyllu i greu ffynhonnau newydd. Yn fwy cyffredinol, yr oedd galwadau ar bobl i leihau eu defnydd o ddŵr a nifer o hanesion am bobl yn teithio i nôl dŵr. Er enghraifft, cariodd amaethwyr Sir Fôn a Sir Gaernarfon ddŵr am filltiroedd, am fod yr afonydd a'r ffynhonnau bron yn sych. Daeth Mr Sugrue, dyn busnes o Abertawe, â thanciau o ddŵr ar y tren a'u gwerthu yn y dref am ddimai y bwced.

Dim yn ddrwg i gyd

Nid oedd pob canlyniad i'r sychder yn negyddol. Er enghraifft, nid oedd pob amaethwr am i'r glaw ddychwelyd. Yr oedd ffermwyr â thir gwlyb ar hyd y wahanfa ddŵr (yn ardal y papur newydd *Swansea and Glamorgan Herald and Neath Gazette*) erioed wedi profi cystal cnwd o wair. Yn ogystal, cyhoeddwyd yn rhifyn 16eg o Fedi, 1887, *The Welshman* bod y madarch o amgylch Llanybydder wedi ffynnu, "Not for many years has the yield of mushrooms around Llanybyther been so plentiful. Small hampers can be filled in a very short time, within ten minutes walk from the village. Large quantities are sent of by train almost daily" (*The Welshman*, Medi 16, 1887: tt. 5). Y mae'n debygol mai glaw sydyn ar bridd cynnes wedi haf sych ysgogodd gnwd mor gynhyrchiol o'r *Agaricus (Field Mushroom)*. Wrth edrych ar ddyddiadur George Bagnall, o Gaerfyrddin, ar gyfer misoedd Awst a Medi 1887 gwelwn gyfnod dwys o law ychydig dros wythnos cyn cyhoeddiad yr adroddiad papur newydd (gweler graff 1). Awgryma hyn fod yma enghraifft diddorol o ffenoleg gan gyfoethogi'r cofnod o sychder 1887–88.



Graff 1. Cofnodion o law yng Nghaerfyrddin ar gyfer misoedd Awst a Medi, 1887 (o Rhif 13: Mawrth 17 1887 i Awst 23 1890, Dyddiaduron George Bagnall, 622 Museum, Archifdy Caerfyrddin)

Diwedd glo

Wrth astudio sychder 1887–88, gwelwn sut y gall sychder parhaus gael effaith sylweddol ar Gymru gan greu llawer o sefyllfaoedd ac amgylchiadau anghyfarwydd. Ni fydd amryw o amgylchiadau'r gorffennol yn berthnasol yfory nac yn y dyfodol pellach. Er enghraifft, ni fydd nenfwd tai yn un â'r toiled ac y mae'n annhebygol y bydd y boblogaeth yn tyfu ar raddfa mor gyflym gan osod galw cynyddol ar y ffynonellau dŵr a'r system o'i drosglwyddo, fel y bu yn rhai o'r ardaloedd yn ne Cymru o dan sylw yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Fodd bynnag, wrth edrych i'r gorffennol, y mae wedi rhoi blas ar ychydig o'r canlyniadau annisgwyl gall ddod yn sgil sychder. Y mae hefyd yn rhoi mewnwelediad diddorol i'r Cymry a'u hamgylchedd pan wyneb ir sychder ac i bwysigrwydd meteoroleg yn ein hanes.

[Diolch i Duncan Brown a Gwennan Evans am eu cymorth wrth lunio'r erthygl hon.]

Hoffech chi glywed mwy am dywydd Cymru?

Dewch i gynhadledd *Tywydd a Hinsawdd y Cymry* ar y 5ed o Dachwedd, 2011, yn y Drwm, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth. Cysylltwch â Dr Angharad Elias ar 01970 636 543 neu a.elias@cymru.ac.uk i gofrestru ac/neu am ragor o fanylion.

Llyfryddiaeth

Symons, G.J. (1887) *British Rainfall 1887*. British Rainfall Organisation

Llun: Gorsaf rheilffordd Llanybydder ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Llyfrgell Genedlaethol Cymru.